# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PANEL CANIATÂD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU** | | **STANDARDS COMMITTEE DISPENSATION PANEL** |
| **DYDD MAWRTH, 22 MEDI 2026 am 2.00 o'r gloch** | | **TUESDAY, 22 SEPTEMBER 2026 at 2.00 pm** |
| **SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | | **COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs Shirley Cooke 01248 752518** | **Committee Officer** |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Mr T Rhys Davies
Mr Brace Griffiths
Mr Trefor Owen

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn dataganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cadarnhau cofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 14 Medi 2026.

**4** **CAIS AM GANIATÂD ARBENNING**

I ystyried cais am ganiatâd arbennig gan Gynghorydd Sir. **– I DDILYN**

# PANEL CANIATÂD ARBENNIG Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 14 Medi 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr Trefor Owen (Cadeirydd)<br>Mr Rhys Davies<br>Mr Brace Griffiths |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (LL)<br>Swyddog Pwyllgorau (SC)<br>Swyddog Gweddarlledu (ND) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Derek Owen (Ymgeisydd)<br>Mr Andy Godber (Rheolwr yr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol, Datblygu Economaidd) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Penodwyd Mr Trefor Owen yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2. DATGAN DIDDORDEB**

Fe wnaeth y Cynghorydd Derek Owen ddatgan diddordeb personol yn y cyfarfod gan mai ef yw'r Ymgeisydd sy'n gofyn am ganiatâd arbennig.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod o'r Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2026 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**4. CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG**

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro fod y Cynghorydd Derek Owen wedi gwneud cais am ganiatâd arbennig (Atodiad 1 i'r adroddiad). Nododd fod y cais yn cynnwys gwybodaeth am natur y diddordeb, y math o ganiatâd arbennig y gofynnir amdano ac ar ba sail y gofynnir am ganiatâd arbennig. Rhoddodd drosolwg o'r seiliau statudol perthnasol y gallai'r Pwyllgor Safonau eu defnyddio i roi caniatâd arbennig.

Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi cynnal ymgynghoriad ar gynnig i fabwysiadu ardoll ymwelwyr, yn unol â Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025.

Mae'r Cynghorydd Derek Owen wedi gwneud cais am ganiatâd arbennig i siarad mewn cyfarfodydd neu drafodaethau yn ymwneud â'r ardoll ymwelwyr ac er mwyn gallu ysgrifennu at swyddogion ac aelodau mewn perthynas â'r mater. Mae'n dymuno hefyd aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth neu bleidlais ar y mater ond nid yw'n gofyn am yr hawl i bleidleisio yn y cyfarfodydd hynny.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Owen i siarad o blaid ei gais.

Dywedodd y Cynghorydd Owen ei fod berchen tir a bod rhan ohono'n cael ei ddefnyddio fel Safle Lleoliad Trwyddedig ar Fynydd Parys. Dywedodd fod ei bartner yn rhedeg y safle carafanau sydd â phum llain ar gyfer carafanau symudol ac un garafán sefydlog. Esboniodd y Cynghorydd Owen ei fod yn dymuno cyfrannu mewn cyfarfodydd yn ymwneud â mabwysiadu'r ardoll ymwelwyr. Dywedodd y byddai'n datgan diddordeb yn y cyfarfodydd hynny.

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Panel ofyn cwestiynau i'r Cynghorydd Owen ynglŷn â'i rôl fel aelod etholedig ac effaith bosib yr ardoll ar y Safle Lleoliad Trwyddedig. Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Owen mai ychydig iawn o effaith fyddai'r ardoll yn ei gael ar y Safle Lleoliad Trwyddedig yn ôl pob tebyg. Pwysleisiodd y Cynghorydd Owen fod y safle yn un bychan iawn a bod nifer yr ymwelwyr yn isel. Dywedodd fod twristiaeth yn bwysig i Ynys Môn ac y gallai gyfrannu at drafodaethau oherwydd bod ganddo arbenigedd mewn perthynas â safleoedd bychan.

Dywedodd Rheolwr yr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol fod yr ymgynghoriad ar yr ardoll ymwelwyr bellach wedi cau. Dywedodd fod yr ymgynghoriad wedi denu dros 2,000 o ymatebion. Bydd adroddiad ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 22 Medi ac yna i'r Cyngor Sir ar 24 Medi er mwyn penderfynu p'un a ddylid cyflwyno'r ardoll.

Gofynnwyd sut fyddai'r ardoll ymwelwyr yn cael ei weinyddu, pe byddai'n cael ei fabwysiadu. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr yr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Gwledig y byddai Awdurdod Refeniw Cymru (ARC) yn disgwyl i fusnesau gasglu'r ardoll a chyflwyno datganiad i ARC bob chwarter.

*Gadawodd Rheolwr yr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol y cyfarfod am 10:24yb.*

Ar ôl gwrando ar gefndir y cais am ganiatâd arbennig gan yr Ymgeisydd, cynhaliodd y Panel sesiwn breifat er mwyn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd arbennig ai peidio, ac os byddai caniatâd arbennig yn cael ei roi, ystyried (i) ar ba sail neu seiliau y rhoddir y caniatâd arbennig ac (ii) a oes angen gosod unrhyw gyfyngiadau.

Ar ôl dychwelyd i'r sesiwn gyhoeddus, dywedodd y Cadeirydd fod y panel wedi ystyried a chytuno fod diddordeb yr Ymgeisydd yn un sy'n rhagfarnu.

**PENDERFYNWYD rhoi caniatâd arbennig i'r Cynghorydd Owen mewn perthynas â'r diddordeb y cyfeiriwyd ato yn y cais ac ar y sail statudol a nodwyd ym Mharagraffau 2(d) a 2(f) yn y cais.**

**Mae'r caniatâd arbennig yn rhoi hawl i'r Cynghorydd: -**

- **ysgrifennu at swyddogion ac aelodau am y mater;**
- **siarad â swyddogion am y mater, ar yr amod bod nodyn yn cael ei wneud o unrhyw drafodaethau o'r fath;**
- **siarad am y mater mewn cyfarfodydd;**
- **aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/pleidlais ar y mater ond, peidio a phleidleisio ar y mater.**

**Cyfyngiadau:**

**Bydd y caniatâd arbennig yn dod i ben ar ddiwedd y tymor presennol ar gyfer aelodau etholedig y Cyngor Sir (ar y pedwerydd diwrnod ar ôl yr etholiad llywodraeth leol nesaf).**

**Gweithredoedd:**

- **Rhaid i'r Cynghorydd Owen ddatgan diddordeb sy'n rhagfarnu wrth fynychu cyfarfodydd y Cyngor Sir a phob cyfarfod perthnasol arall.**
- **Y Dirprwy Swyddog Monitro a'r Cadeirydd i gytuno ar eiriad yr Hysbysiad o Benderfyniad.**
- **Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Cynghorydd Owen i gadarnhau bod y Panel Caniatâd Arbennig wedi rhoi'r caniatâd arbennig.**
- **Anfon copi o'r Hysbysiad o Benderfyniad at y Cynghorydd Owen a'r Gwasanaethau Democrataidd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11:05am

**MR TREFOR OWEN**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank